*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **12/02/18** |
| Swyddog Arweiniol | **Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Pherfformiad Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Shân Morris** |
| Pwnc | **Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2016/17** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno, i'r aelodau, adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn adolygu perfformiad yr Awdurdod a'i drefniadau. Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol yn rhoi crynodeb ac asesiad gan yr Archwilydd Cyffredinol a rheoleiddwyr eraill drwy gydol y cyfnod 2016/17.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yn seiliedig ar y gwaith a wneir gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i hynny, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn credu bod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2017/18.

**ARGYMHELLION**

3 Gofynnir i'r aelodau nodi'r adroddiad gwella blynyddol.

**CEFNDIR**

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, ac mae'n cael ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei gwaith drwy ddefnyddio staff ac adnoddau eraill sy'n cael eu darparu gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd ar gyfer hynny ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei dal i gyfrif gan y Cynulliad Cenedlaethol.

5 Gydag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian, ac mae'n asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

**GWYBODAETH**

6 Wrth bennu ehangder y gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, bu Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried y cyfoeth o wybodaeth a gasglwyd yn sgil archwiliadau ac arolygiadau yn ogystal â ffynonellau eraill o wybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys mecanweithiau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ei hun i adolygu a gwerthuso. Yn ystod 2016-17, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru waith asesu gwelliant ym mhob awdurdod, gan gynnwys gwaith adrodd a chynllunio i wella. Mewn rhai awdurdodau, ategwyd y gwaith hwn drwy gynnal archwiliadau lleol yn seiliedig ar risg, a nodwyd yn y Cynllun Archwilio 2016/17.

7 Mae'r adroddiad gwella blynyddol yn gwneud yr argymhellion a ganlyn:

Cryfhau'r trefniadau rheoli asedau drwy:

- C1 Rhoi diffiniad clir o'r rolau a'r cyfrifoldebau o ran penderfynu ar gyfer rheoli asedau, ac o fewn Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod.
- C2 Cytuno ar fesurau cyffredin ag Awdurdodau Tân ac Achub eraill Cymru er mwyn asesu dangosyddion allweddol yn gysylltiedig â thir ac adeiladau, fel bo modd cymharu perfformiad ac adnabod tueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

8 Ar dudalennau 8 i 10 o'r adroddiad, tynnir sylw at gynigion blaenorol ar gyfer gwella.

9 Tynnir sylw at argymhellion Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub ar dudalen 11.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Gallai argymhelliad C2 gyfrannu o bosibl at leihau effaith amgylcheddol adeiladau'r Awdurdod. |
| Cyllideb | Gallai argymhelliad C2 gyfrannu o bosibl at ganfod arbedion ariannol. |
| Cyfreithiol | Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol yn adlewyrchu dyletswydd yr Awdurdod o dan Fesur Llywodraeth Leol 2009 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau. |
| Staffio | Ni chanfuwyd dim. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd dim. |
| Risgiau | Ni chanfuwyd dim risgiau yn gysylltiedig â pheidio â chydymffurfio gan fod yr adroddiad yn dod i'r casgliad fod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2017/18. |